# Prosbectws Coleg Elidyr



Coleg Preswyl ac Addysg Bellach Arbenigol

## Lle Gwych i Fyw a Dysgu!



Rwyf mor falch o'm mab, ac o'r tîm o'i gwmpas sydd wedi rhoi amgylchedd cefnogol iddo, gan ei alluogi i gyflawni cymaint a chredu yn ei allu ei hun.

Rhodd arbennig iddo ef, fy nheulu a phob teulu sydd angen cynhwysiant a gobaith.

# Darpariaeth Flaenllaw yn y Sector

## Datblygu Potensial a Newid Bywydau

Rydym yn goleg arbenigol, preswyl ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant, sy'n darparu rhaglenni dysgu wedi'u teilwra a gofal preswyl i bobl ifanc ag awtistiaeth ac anghenion dysgu ychwanegol cymhleth. Rydym yn rhan o Ymddiriedolaeth Cymunedau Elidyr.

Â chefnogaeth arbenigol, mae dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau er mwyn cyflawni eu potensial yn llawn, tra'n byw ac yn gweithio mewn cymuned. Rydym yn ddarparwr profiadol, ac rydym wedi bod yn gweithio o'n prif safle ger Llanymddyfri ers bron i 50 mlynedd.

Rydym yn cynnig Rhaglen Addysg Sylfaen a Rhaglen Sgiliau Bywyd – â'r dysgu wedi'i addasu'n sylweddol i sicrhau bod pawb yn cael profiad cadarnhaol.



*Lle gwych ... mae ein mab wedi cyflawni pethau na wnaethon ni erioed ddychmygu y byddai'n gallu eu gwneud. Mae e wedi bod mor hapus!*

## Dyfarnwyd yn 'Rhagorol' gan Estyn

Cawsom ein dyfarnu'n 'rhagorol' gan Estyn yn 2014 a 2019 ac mae gennym achrediad uwch gan Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth. Rydym yn mireinio ein cwricwlwm a'n dulliau gweithredu yn barhaus, er mwyn ymgorffori ffyrdd newydd o ennyn diddordeb ein dysgwyr. Golyga hyn ein bod yn gweithio mewn cysylltiad agos â cholegau eraill, sefydliadau a'r llywodraeth i sicrhau ein bod yn parhau'n arweinwyr yn y sector.








## Dysgu sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Rydym yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, gan roi'r unigolyn yn ganolog i'w addysg.

- Dysgwyr llwyddiannus sy'n mwynhau dysgu, sy'n ddyfeisgar ac yn gallu datrys problemau.
- Unigolion hyderus sy'n gallu byw bywydau diogel, iach a bodlon.
- Dinasyddion cyfrifol sy'n parchu eraill ac yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol i gymdeithas.

Mae popeth rydym yn ei gynnig yn adlewyrchu'r uchelgais hon.

## Mireinio Dros Ddegawdau

Rydym yn adnabyddus am ddull gweithredu sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn yn y dirwedd. Rydym yn cynnig addysg ymarferol, â naws gymunedol sy'n defnyddio ein safle helaeth 180 acer i ysbrydoli pobl i fyw a dysgu yn fwy annibynnol.

Mae ein dysgwyr yn gweithio yn ddyddiol yn ein hwb addysg newydd, gweithdai crefft, tyddyn, siop, gerddi a champfa. Maent yn symud o amgylch y safle o le i le, gan dreulio amser mewn gwahanol amgylcheddau, gan arbrofi â mwy o annibyniaeth, wrth i'w hyder gynyddu. Mae'n lleoliad pentrefol, â dysgwyr yn 'mynd allan' i'w hardaloedd dysgu ac yn dod adref yn ôl i gael prydau bwyd, a chymdeithasu.

*Mae addysgu yn y coleg yn darparu profiadau hynod ysgogol ar gyfer dysgwyr sy'n eu helpu i ymgysylltu'n llawn â'u dysgu a gwneud cynnydd eithriadol o dda.*

Arolygydd Estyn

*Wnes i erioed feddwl y byddai fy merch yn gallu cerdded yn annibynnol i siop. Mae wedi bod mor braf iddi gael y rhyddid yna ond mewn amgylchedd hollol ddiogel.*

# Tîm Therapi Mewnol

## Cefnogaeth Broffesiynol wedi'i Chynllunio i Alluogi Dysgu

Mae pawb sy'n dod i Goleg Elidyr yn cael mynediad at dîm therapi ar y safle sydd wedi'i hyfforddi i safon uchel. Golyga hyn fod arbenigwyr sy'n ymdrin â lleferydd ac iaith, cyfathrebu cyflawn, therapi galwedigaethol ac ymddygiad, yn ffurfio rhan o'n tîm creiddiol.

Caiff dysgu pob unigolyn ei sgaffaldio gan becyn therapi priodol i'w alluogi i ddysgu hyd eithaf ei allu. Rhoddir targedau therapi lleferydd ac iaith i bob dysgwr i gefnogi hyn.




Mae pawb yn cael ei hyfforddi yn ein dull cyfathrebu cyflawn, sy'n rhoi pob cyfle i ddysgwyr ddeall a chael eu deall, ac osgoi rhwystredigaeth a gorbryder – gan ddatblygu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol.

Mae gallu dweud wrth bobl beth mae arnoch ei eisiau yn rhywbeth y mae'r rhan fwyaf ohonom yn ei gymryd yn ganiataol. Mae mor syml ond mor sylfaenol i allu gweithredu mewn bywyd. Rydym yn defnyddio iaith arwyddion yn ogystal â chyfathrebu geiriol a nifer o ddulliau eraill. Mae gennym fyrddau cyfathrebu mewn tai, gweithdai ac ardaloedd dysgu. Rydym yn defnyddio byrddau 'nawr a nesaf', rhestrau tasgau, llithryddion dilyniant a matiau siarad.

*Rydym wedi gweld ein mab yn datblygu nifer o sgiliau newydd. Mae gymaint yn fwy hyderus ac annibynnol.*

*Mae'n cael profiadau amrywiol iawn … ac mae'n amlwg yn mwynhau ei hun!*

# Llety Cartrefol

## Lle Gwych â Naws Teuluol i'w Alw'n Gartref

Mae gennym saith tŷ, pob un â; rheolwr tŷ dynodedig, cegin, swyddfa, ystafell olchi dillad a dewis o ardaloedd cyffredin.

Mae gan y rhan fwyaf o'r tai gegin/ystafell fwyta fawr ac ystafell fyw gyfagos, sy'n helpu grwpiau mawr i gymdeithasu. Mae pobl ifanc yn cael eu hannog a'u helpu i olchi eu dillad eu hunain, coginio a glanhau'r tŷ.





*Aelwyd ddiogel, dosturiol a hapus … mwy nag y byddem wedi gallu ei ddymuno.*

Mae chwech o'n tai yn cynnwys fflatiau annibynnol a ddefnyddir i gynorthwyo ein pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau bywyd ymhellach ar gyfer bywyd ar ôl coleg. Mae gennym raglen dreigl ar gyfer gwaith adnewyddu ac addurno.

Gweithredir ein tai fel aelwydydd cynnes, cefnogol lle gall pobl ifanc fod yn nhw eu hunain. Rydym yn bwyta, cymdeithasu a gwneud gwaith tŷ gyda'n gilydd, gan rannu profiadau a gwneud penderfyniadau am faterion sy'n berthnasol i'r aelwyd, gan gynnwys bwydlenni a gweithgareddau hamdden.





















# Dwy Raglen Cyfoethogi Bywydau

## Addasu i Anghenion Dysgwyr


Mae Coleg Elidyr yn cynnig Rhaglen Addysg Sylfaen a Rhaglen Sgiliau Bywyd.


Mae gan bawb Gynllun Dysgu Unigol (CDU) â nodau sy'n rhychwantu pob agwedd ar fywyd yng Ngholeg Elidyr.

Mae'r dysgu'n digwydd 24 awr y diwrnod 7 diwrnod yr wythnos – mewn gweithgareddau a dosbarthiadau yn ystod y dydd, a hefyd mewn tai.

Yn y ddwy raglen, rhoddir dysgwyr mewn grwpiau tiwtor bach ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r rhain wedi'u dewis yn ofalus er mwyn cydbwyso personoliaethau a diddordebau.

Mae fy mab wedi bod yn Coleg Elidyr ers peth amser. Mae'n hapus iawn ac yn cael ei gefnogi i ddatblygu mewn ffyrdd na feddyliais erioed y byddant yn digwydd.












Trip Diwylliannol Gŵyl Dewi
Mynd allan am y tro cyntaf fel grŵp ar ôl y pandemig.

# Rhaglen Addysg Sylfaen

## Datblygu Sgiliau a Llesiant ... Ysbrydoli Cyffro i Ddysgu!

Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn ymuno â Choleg Elidyr ar gyfer ein Rhaglen Addysg Sylfaen.

Mae'r cwricwlwm yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yng Nghynllun Addysg, Iechyd a Gofal (EHCP) neu Gynllun Datblygu Unigol (IDP) pob unigolyn.

Mae gan bawb ei Gynllun Dysgu Unigol (CDU) ei hun sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae cynllun pawb yn wahanol, ac mae pawb yn cael cyfuniad o'r hyn sy'n iawn iddyn nhw.



### 1 Lechyd a Lles

Rydym yn meithrin agwedd dda at fyw'n iach – mae'n sylfaen bwysig ar gyfer dysgu. Mae deall effaith gadarnhaol gofalu am eich corff a'ch meddwl yn hollbwysig er mwyn cadw pobl yn hapus, a gallu gwneud cynnydd.

### 2 Sgiliau Hanfodol

Llythrennedd, Rhifedd a Llythrennedd Digidol

Mae'r sgiliau hyn, ynghyd â chyfathrebu, yn cael eu hintegreiddio i amgylcheddau dysgu a byw. Mae ein cwricwlwm yn gweithredu yn ddi-baid. Mae pob profiad yn gyfle i ddysgu.

### 3 Sgiliau Byw'n Annibynnol

Mae llawer o ddysgwyr yn cyrraedd â sgiliau byw'n annibynnol elfennol neu heb unrhyw sgiliau o'r fath. Mae'n un o'r meysydd cynnydd sy'n plesio'r rhieni fwyaf! Mae gennym ddull gweithredu strwythuredig ar gyfer addysgu sgiliau domestig a sgiliau bywyd, er mwyn galluogi gwelliannau bach rheolaidd.

### 4 Cymryd Rhan yn y Gymuned

Mae deall y cysyniad o 'gymuned' a sut mae gwahanol grwpiau yn rhyngweithio ac yn gweithio gyda'i gilydd yn helpu i greu golwg ehangach ar y byd. Mae'n datblygu gwerthfawrogiad o farn pobl eraill, yn gwella rhyngweithio cymdeithasol ac yn dysgu sut mae prosesau gwneud penderfyniadau yn gweithio.

### 5 Cyflogadwyedd

Mae sgiliau cyflogadwyedd yn paratoi ein dysgwyr i wneud cynnydd mewn maes a ddewiswyd a meddwl am astudiaeth bellach, neu fyd gwaith, yn fwy hyderus.



## Profiad Elidyr

# Hapus i Helpu Parod i Weithio

Mae gennym grŵp cynyddol o gyflogwyr a sefydliadau lleol sy'n cynnig cyfleoedd i gael profiad gwaith.

Dros y blynyddoedd mae ein dysgwyr wedi treulio amser yng Ngardd Fotaneg Cymru, Ymddiriedolaeth Ceffylau a Merlod Lluest, Many Tears Animal Rescue, Tafarn y Plough a Myddfai Trading. Mae'r Co-op yn Llanymddyfri hefyd yn ffefryn gan y dysgwyr!

Rydym yn gofyn i arbenigwyr, fel Legacy in the Community, ddod i mewn i gynnal gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae'r sesiynau hyn yn amrywio o ddeall y cysyniad o 'argraff gyntaf dda' i fynd am gyfweliad. Mae cyfle hefyd i chwarae rôl, lle gall dysgwyr gamu i esgidiau cymeriadau mewn gwahanol swyddi.

*Profiad gwaith, rhyngweithio cymdeithasol, a hyder, mewn amgylchedd gwaith diogel a chyfforddus.*

# Rhaglen Sgiliau Bywyd

## Atgyfnerthu Gwybodaeth, Mireinio Sgiliau a Chynyddu Cyfleoedd

Mae Sgiliau Bywyd yn rhaglen breswyl 1 neu 2 flynedd, sy'n cael ei darparu dros 37 wythnos â darpariaeth estynedig, hyd at 52 wythnos. Er ein bod yn dal i ddatblygu'r pethau sylfaenol – sgiliau digidol, rhifedd a llythrennedd – mae'r ddarpariaeth hon yn canolbwyntio ar fywyd ar ôl Coleg Elidyr.

Amcan y rhaglen yw paratoi ar gyfer y cam nesaf mewn bywyd, beth bynnag fydd hwnnw! Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn amrywio'n fawr o'r naill unigolyn i'r llall. Ein bwriad yw rhoi offer i'r dysgwyr i'w galluogi i greu darlun cliriach o'u dyfodol a'u paratoi â'r sgiliau i fod yn iach ac yn hapus.

Mae gan bob dysgwr ei Gynllun Dysgu Unigol (CDU) ei hun â thargedau wedi'u grwpio mewn pedwar prif faes.

### 1 Sgiliau Cartref a Chymuned

Annog dysgwyr i fod yn fwy hyderus yn y cartref a hefyd i feddwl pa fath o amgylchedd cartref maent yn ei fwynhau, a pha drefniadau byw allai fod yn addas iddynt yn y dyfodol.

### 2 Sgiliau Ffordd o Fyw

Hybu pwysigrwydd dewis ffordd iach o fyw, mwynhau gweithgareddau iach, ac iechyd meddwl da.

### 3 Sgiliau Cymdeithasol a Rhyngbersonol

Cydnabod pwysigrwydd amser segur cynhyrchiol. Mae datblygu diddordebau, a gallu gwneud dewisiadau yn hollbwysig er mwyn i ddysgwyr allu byw bywydau bodlon a bod yn egnïol yn y dyfodol.

### 4 Sgiliau Gyrfa (Profiad Gwaith, Cyflogadwyedd, Menter a Gwirfoddoli)

Datblygu sgiliau cyflogadwyedd a menter, sy'n cynnwys profiad gwaith lle bynnag y bo modd. Mae cystadlaethau sgiliau hefyd yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu sgiliau galwedigaethol, sgiliau ehangach ar gyfer gwaith, sgiliau personol a chymdeithasol, a sgiliau annibyniaeth.





Profiad Elidyr

## Cymaint i'w Ddweud... Cyngor Myfyrwyr

**Yn fforwm y myfyrwyr mae dysgwyr yn cael eu hannog i fynegi eu barn a dylanwadu ar newid.**

Mae gennym grŵp o bobl ifanc sy'n cael eu cefnogi i fod yn gyfrifol am faterion, pryderon ac awgrymiadau a gesglir drwy gyfarfodydd tŷ. Yn ystod y cyfarfodydd hyn bydd pobl ifanc yn trafod gweithgareddau cymdeithasol posibl – nofio, mynd i'r traeth, mynd i'r sinema, tafarn neu siop goffi. Maent yn cael cyfle i ddweud eu barn a thrafod a datrys unrhyw faterion sy'n codi.

Mae llawer o bethau da wedi'u hychwanegu at ein cymuned yn dilyn syniadau a gafwyd gan ddysgwyr. Mae'r grŵp hefyd yn ymwneud â Senedd NATSPEC lle maent yn cyfarfod pobl ifanc o bob cwr o Brydain, i drafod problemau cyffredin.

Profiad Elidyr

# Cystadlaethau Sgiliau Mynd am Aur

Rydym yn defnyddio strwythur cystadlaethau sy'n cael eu trefnu, trwy Sgiliau Cymru a WorldSkills, i roi cyfle i'n dysgwyr gael profiadau y tu allan i ffiniau ein campws.

Mae'r cystadlaethau hyn yn ysbrydoli, annog a chymell unigolion i wthio eu hunain ymhellach, ac yn cydnabod rhagoriaeth yn y maes a ddewiswyd.

Rydym wedi gwthio yn erbyn yr ystrydeb bod 'cystadlu' yn rhy gymhleth i'n dysgwyr. Rydym wedi dangos, os yw briff y gystadleuaeth wedi'i addasu, y gallwn leihau effeithiau pethau sy'n anodd i'n dysgwyr ni, er enghraifft cyfyngiadau amser.

Rydym yn creu profiadau y gall ein dysgwyr ymgysylltu â nhw, gan ganiatáu iddynt berfformio ar lefel genedlaethol – rhywbeth na fyddai llawer o'n pobl ifanc byth wedi ei ddychmygu.

Mae Coleg Elidyr wedi llwyddo i wneud cystadlaethau yn rhan o'r gwaith dysgu o ddydd i ddydd. Mae'r cyfleusterau yma a'r cyfleoedd i ddysgwyr roi cynnig ar bethau newydd yn rhagorol.

Dirprwy Gyfarwyddwr
Addysg Bellach a Phrentisiaethau, Llywodraeth Cymru



Pan glywais i fy mod wedi ennill y fedal aur, doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w ddweud. Roedd e'n sioc.

Ond cael cymryd rhan sy'n bwysig i mi.



# Llawer o Gyfleusterau Dysgu Rhyngweithiol


Mae gallu cael mynediad at gynifer o wahanol amgylcheddau dysgu a phrofiadau ar un safle yn elfen hanfodol o'n dull gweithredu. Mae ein rhaglenni dysgu yn annog dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn meysydd sydd o ddiddordeb iddynt.

Yn ogystal â datblygu sgiliau penodol, mae'r meysydd hyn yn darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau a phrosiectau a rennir, hybu cyfathrebu a sgiliau cymdeithasol, gan gynnwys dysgu gan gymheiriaid, cymryd tro a gwrando.









## Tyddyn a Gardd

Mae ein safle unigryw yn darparu profiadau dysgu diogel ac amrywiol sy'n gysylltiedig â thir i ddysgwyr. Y naill dymor ar ôl y llall, mae agosrwydd at y tir yn rhoi teimlad o sicrwydd a'r gallu i ragweld beth fydd yn digwydd nesaf gan helpu i ddatblygu hunanhyder ac ymwybyddiaeth yr unigolyn. Boed yn bwyso bwyd anifeiliaid, gofalu am les anifeiliaid, gweithio ar y stad, neu dyfu llysiau a pherlysiau yng ngardd y gegin, mae dysgwyr yn cael cyfleoedd byw a dysgu sy'n seiliedig ar y byd go iawn ac sydd â phwrpas iddynt. Mae gennym hyd yn oed ystafelloedd dosbarth pwrpasol yn yr ardd ac ar y fferm!

## TG a Chyfathrebu

Mae gennym ystafell bwrpasol ar gyfer TGCh y gall dysgwyr fynd iddi drwy'r wythnos, ynghyd â Chydlynydd TGCh. Caiff sgiliau a gyflwynir mewn sesiynau TGCh eu trosglwyddo i gyd-destun ymarferol yn y 'byd go iawn' mewn meysydd gwaith eraill.



## Arlwyo a Lletygarwch

Mae ein cegin addysgu fodern yn caniatáu i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau byw'n annibynnol yn effeithiol, gan gynnwys coginio, lletygarwch, tasgau o gwmpas y tŷ ac iechyd a diogelwch. I lawer o'n dysgwyr, mae'r gegin yn lle iddynt ddatblygu sgiliau creadigol a sgiliau echddygol manwl. Gall tiwtoriaid hefyd helpu i ddatblygu sgiliau rhifedd mewn ffordd gynnil, â thasgau fel pwyso cynhwysion neu gyfrifo amseroedd coginio.



## Tecstilau a Gwaith Coed

Mae'r coleg wedi datblygu arbenigedd dros nifer o flynyddoedd mewn deall a hybu manteision therapiwtig gwaith llaw fel cyfrwng ar gyfer dysgu ehangach. Cynigir crefftau traddodiadol gwehyddu, gwaith coed gwyrdd a gwaith coed traddodiadol ynghyd â chrefftau mwy cyfoes celf a dylunio, argraffu a gwneud canhwyllau a sebon.

I lawer o'n dysgwyr, yn enwedig y rhai sydd ag awtistiaeth, mae'r prosesau a'r rhythm sy'n gysylltiedig â chreu crefftau yn gwella gallu'r unigolion i reoli gorbryder.

Yn yr un modd, gall gweithgareddau crefft wella sgiliau echddygol bras a manwl a gwella'r gallu i dalu sylw a chanolbwyntio. Maent hefyd yn gwella cydsymud gweld a gafael a'r gallu i ddefnyddio'r ddwy law yr un pryd.

Profiad Elidyr

# Antur Awyr Agored Dug Caeredin

Mae ein lleoliad, yng nghanol cefn gwlad Cymru, yn golygu ein bod yn gallu mwynhau digon o weithgareddau awyr agored, ac rydym yn cynnig rhaglen lawn o weithgareddau gwobrau Dug Caeredin.

Mae ein pobl ifanc yn darllen mapiau, dringo mynyddoedd, croesi dyffrynnoedd, beicio, paratoi bwyd, cynllunio llwybrau ac yn annog ei gilydd ymlaen! Maent yn dangos arweinyddiaeth a phenderfyniad – gan ddatblygu sgiliau a hyder.

Mae gwobrau Dug Caeredin yn gyfle gwych i'n pobl ifanc fynd i'r afael â heriau a datblygu hyder. Mae'n anodd, ond pan fyddant yn cyrraedd eu nodau maent mor falch ... a ninnau hefyd.

**Rheolwr Gwobrau Dug Caeredin**



Mae Gwobr Dug Caeredin yn gynhwysol iawn ac yn caniatáu i ddarparwyr arbenigol wneud addasiadau. Mae hyn yn sicrhau bod pawb, beth bynnag ei allu, yn gallu cymryd rhan. Rhaid i bawb sy'n cymryd rhan gwblhau adrannau gwirfoddoli, sgiliau ymarferol, gweithgaredd corfforol a thaith hir i gael y wobr.

Rhaid i'r rhai sy'n mynd am y wobr aur hefyd wneud adran breswyl ychwanegol neu gymryd rhan mewn wythnos weithgareddau, gan aros oddi cartref unwaith eto. Bob blwyddyn mae gennym ddysgwyr sy'n ennill gwobrau Efydd, Arian ac Aur.

# Balch o fod yn Gymry

## Wedi Ymrwymo i Dreftadaeth Cymru a Diwylliant Cymreig Ffyniannus

Mae'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn rhan o'n bywydau yng Ngholeg Elidyr.

Er bod gennym ddysgwyr o bob cwr o'r Deyrnas Unedig, rydym yn falch o fod yn rhan o dirwedd ddiwylliannol ac addysgol Cymru. Mae defnyddio'r iaith Gymraeg yn ddewis naturiol i ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg, ac mae'n adeiladu ar eu profiad yn eu hysgolion blaenorol.




Rwy'n hoffi'r lle yma. Rydw i wrth fy modd yma!

Un o ddysgwyr Coleg Elidyr mewn cyfweliad gyda'r BBC



Yn ogystal, mae gwerthfawrogiad o'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn agor drysau o safbwynt twf personol pob dysgwr, ni waeth o ble maent yn dod. Mae'n meithrin ymdeimlad o berthyn ac yn cryfhau cysylltiadau â'n cymuned leol. Caiff pob myfyriwr sy'n siarad Cymraeg ei baru â thiwtoriaid a gweithwyr allweddol sy'n siarad Cymraeg. Mae gennym arwyddion dwyieithog ym mhob rhan o'r safle ac mae pawb yn cael gweithgareddau diwylliannol Cymreig fel rhan o'i raglen – boed yn ymweliad ag Amgueddfa Cymru, neu'n ymweliad â digwyddiadau mawr fel yr Eisteddfod.

# Creu Bywydau Llawn Ystyr a Phwrpas

## Dewch i Weld Drosoch Eich Hun

Does dim ffordd well o werthfawrogi pa mor dda yw Elidyr...

Mae ffurflenni cais ar gyfer Coleg Elidyr i'w gweld ar ein gwefan, neu, os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais am le, y cam nesaf gorau yw dod i'n gweld! Rydym wrth ein bodd yn mynd â phobl o amgylch ein safle gwych, ac mae'n gyfle heb ei ail i chi weld ein dulliau gweithredu a'r cyfleusterau – cyfarfod y staff, y dysgwyr a'r preswylwyr.

Os hoffech drafod cais neu drefnu ymweliad, cysylltwch â'n tîm ar 01550 760400.

https://elidyrct.ac.uk/admissions/funding-information



*Dyw fy mab erioed wedi bod yn hapusach nac yn fwy bodlon nag y mae wrth fyw yn Elidyr.*

**Elidyr Communities Trust**
Rhandirmwyn, Llanymddyfri, SA20 0NL

01550 760400

www.elidyrct.ac.uk
info@elidyrct.ac.uk

Rhif Elusen: 502742. Rhif y Cwmni: 1215997.